Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Coed Mawr
# Coedmawr
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 4SG

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JWneu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Babanod Coed Mawr wedi ei lleoli ar gyrion tref Bangor ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith oed. Cymraeg yw prif gyfrwng y dysgu.  Yn ystod yr arolygiad, roedd 39 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Fe'u haddysgir gan ddwy o athrawon amser llawn.  Oddeutu 8% o'r disgyblion sydd o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Mae 10% o'r disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.  Derbynnir disgyblion i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim tua 26%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21%.

Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.  Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n agos â ffigwr Cymru.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i arwain Ysgol Babanod Coed Mawr ac Ysgol Iau Glanadda yn Ionawr 2010.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Babanod Coed Mawr yn 2014-2015 yn £4,568.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220.  Mae Ysgol Babanod Coed Mawr yn y 27ain safle allan o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda
- Darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel
- Darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Fodd bynnag:

- Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gyson yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- Mae cyfradd presenoldeb yn parhau yn isel
- Mae gorgyfarwyddo yn llesteirio disgyblion ar draws yr ysgol rhag cymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu
- Nid yw staff yn cynllunio digon o weithgareddau gwahanol ar gyfer herio disgyblion o allu uwch yn briodol
- Nid oes defnydd cyson o'r ardal y tu allan er mwyn hybu profiadau dysgu ac ysgogi disgyblion yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Bod aelodau'r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Bod ffocws addas yn y cynllun datblygu ysgol ar godi safonau llythrennedd a rhifedd

Fodd bynnag:

- Nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol hyd yma wedi cael effaith lawn ar wella ansawdd y ddarpariaeth na safonau disgyblion
- Nid yw'r corff llywodraethol yn cael digon o effaith ar gyfeiriad a gwaith strategol yr ysgol ac nid ydynt yn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu

A2 Gwella lefelau presenoldeb

A3 Sicrhau bod yr addysgu’n darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis gweithgareddau a mynd ar drywyddau annibynnol

A5 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o’r ardal allanol

A6 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol a’r corff llywodraethol yn gweithredu’n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a herio’r ysgol

A7 Sicrhau bod blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol wedi eu seilio’n benodol ar ddeilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau islaw'rlefelau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed ac yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw ar ddysgu blaenorol yn briodol. Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen syml a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y dasg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hoffi darllen ac maent yn edrych ar amrywiaeth o lyfrau yn frwdfrydig. Mae disgyblion abl yn darllen yn rhugl a deallus yn y Gymraeg ac mae eu gallu i ddarllen yn Saesneg yn datblygu'n dda hefyd.

Mae gwaith ysgrifennu bron pob un o'r disgyblion yn dangos cynnydd erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae rhan fwyaf y disgyblion abl yn defnyddio ansoddeiriau syml i gyfoethogi eu gwaith ac yn atalnodi'n gywir. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig gyda chymorth. Nid oes cysondeb yn safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn llyfrau rhan fwyaf y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn briodol. Er enghraifft, maent yn gallu dyblu a haneru, adio a thynnu rhifau dau ddigid a chyfrif ymlaen ac yn ôl fesul deg yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, gall y mwyafrif ddarllen amseroedd cloc syml, trin arian mewn sefyllfaoedd bob dydd a defnyddio unedau mesur yn gywir. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

Nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, rhaid trin data am berfformiad yn ofalus gan fod canlyniadau un disgybl yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn medrau iaith a mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) hefyd wedi gosod yr ysgol naill ai yn yr 50% is neu'r 25% isaf ym mhob maes dysgu.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, nid yw disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

## Lles: Digonol

Mae Ysgol Babanod Coed Mawryn ysgol hapus lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fo angen. Mae ganddyntddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent yn dangos diddordeb amlwg yn eu gwaith, yn canolbwyntio'n briodol, ac mae eu hagweddau at ddysgu'n dda. Mae perthynas dda rhyngddynt a'i gilydd, ac oedolion. Mae medrau cymdeithasol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol ac maent yn cydweithio'n gyfrifol mewn grwpiau dysgu amrywiol. Fodd bynnag, nid yw medrau llawer o'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n ddigonol fel y gallant weithio'n annibynnol.

Mae llais y disgybl yn cael ei ddatblygu'n briodol yn yr ysgol. Mae disgyblion ynmynegi barn yn effeithiol ac wedi chwarae rhan amlwg wrth sefydlu gardd berlysiau i ddenu bwystfilod gwyllt. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi llwyddo i'w gyflawni.

Megis dechrau mae gallu'r disgyblion i asesu gwaith eu hunain er mwyn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau. Lleiafrif o'r disgyblion sydd yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Ansicr ydynt wrth drafod eu targedau.

Mae disgyblion yn cymryd rhan briodol mewn digwyddiadau lleol sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u cyfraniad i'w cymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw rhan y disgyblion mewn gwasanaethau diolchgarwch yn y capel a'r eglwys leol.

Er bod arwyddion fod presenoldeb y disgyblion yn gwella, mae'r ganran presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair allan o'r 4 blynedd diwethaf. Mae prydlondeb rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu amrywiol sy'n ennyn diddordeb disgyblion o fewn gwersi a thrwy ymweliadau allanol. Mae'r ymweliadau hyn â'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd sy'n ysgogi rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi cynllunio'r FframwaithLlythrennedd a Rhifedd ar gyfer ei chynlluniau tymor hir yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'rcynlluniau yn sicrhau bod y medrau'n ddatblygol ar draws y meysydd dysgu.

Nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu'n ddigon cadarn, yn enwedig y defnydd o'r ardaloedd allanol a chyfleoedd i ddatblygu dysgu annibynnol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ydisgyblion o'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig drwy ymweliadau cwmni drama lleol a dathliadau dydd gŵyl Dewi Sant. Mae wedi rhoisylw amlwg i'r 'siarter iaith', ac ar y cyfan mae'r staff yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn briodol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn amlwg ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion, trwy'r 'Tîm Ynni', yn chwarae rhan weithredol yn y trefniadau arbed ynni. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hintegreiddio yn achlysurol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft dathlu'r flwyddyn newydd Tseiniaidd.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthynas waith effeithiol â'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac yn rhoi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiaupenodol. Mae ganddynt wybodaethbynciol berthnasol ac maent ynrheoli ymddygiad yn effeithiol.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant clir gyda'r disgyblion i sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud. Maent yn holi'n effeithiol aheriol wrth ymateb i anghenion unigolion. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawonyn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion a chaiff gweithgareddau eu trefnu'n briodol.

Mae cynlluniau'r athrawon yn cynnwys tasgau a gweithgareddau priodol i ddisgyblion o wahanol alluoedd. Fodd bynnag, nid oes bob amser ddigon o amrywiaeth na her yn y gweithgareddau hyn er mwyn bodloni anghenion y disgyblion uwch eu gallu. Mae tuedd i nifer o weithgareddau'r disgyblion fod yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd oedolion, sy cyfyngu eu datblygiad i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith. Maent yn marcio eu gwaith yn gyson ac yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadauadeiladol ar sut i wella'r gwaith,ond anghyson yw'r arfer hon. Nid yw'r defnydd ostrategaethau asesu ar gyfer dysgu, fel 'partneriaid sy'n siarad' a hunanasesu ac asesu cyfoedion wedi datblygu'n priodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar, ond nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i farnu pa mor effeithiol yw'r weithdrefn er mwyn codi safonau a chynnydd disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion ond prin yw'r sylwadau ynglŷn â'r camau nesaf er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn dangos gofal ac yn darparu arweiniad pwrpasol i'r holl ddisgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ddatblygu gwerthoedd moesol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion, sydd wedi eu sefydlu'n gadarn ac sy'n hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r disgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i gynyddu eu ffitrwydd a chadw’n heini, yn enwedig trwy’r Clwb Dal Ati. Mae cyswllt rheolaidd gyda’r gwasanaeth heddlu ac adran diogelwch ffyrdd y sir yn datblygu elfennau o les y disgyblion yn fuddiol; er engrhaifft, cynllun ‘Carys Ofalus’, sy’n boblogaidd iawn gan y disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae’r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn dadansoddi ystod o asesiadau priodol. Mae gan yr ysgol ystod o raglenni ymyrraeth effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth gyda llythrennedd a rhifedd.

Mae disgyblion ag anghenion penodol yn derbyn rhaglenni unigol manwl, sy’n sicrhau eu bod yn gweithio tuag at eu targedau, yn gwneud cynnydd, ac yn symud ymlaen i’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r rhaglenni yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac mae’r ysgol yn ymgynghori’n briodol â disgyblion a rhieni fel rhan o’r broses.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau cymorth, fel y gwasanaeth lles, seicolegwyr addysg a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi disgyblion a rhieni yn ôl yr angen.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau i hyrwyddo presenoldeb da yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol ble caiff pob disgybl fynediad cyfartal i’r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Prin iawn yw’r achosion o fwlio ac mae canllawiau clir i’w dilyn os bydd angen. Cefnogir y trefniadau hyn gan ddogfennaeth a pholisïau addas sydd wedi eu mabwysiadu a'u hadolygu gan y llywodraethwyr.

Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau dysgu sy’n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae maint y dosbarthiadau yn ddigonol gyda gofod mawr iawn ar gyfer y cylch meithrin a’r dosbarth meithrin. Fe wneir defnydd priodol o’r neuadd ar gyfer gweithgareddau grŵp a datblygiad corfforol.

Mae amgylchedd yn y dosbarthiadau ac mewn lleoliadau eraill o gwmpas yr ysgol yn dangos nifer o arddangosfeydd pwrpasol gan yr athrawon i gefnogi dysgu. Fodd bynnag, prin iawn yw’r enghreifftiau o waith y plant a gaiff eu harddangos. Nid yw adnoddau yn yr ardaloedd allanol yn ddigon symbylus ac er bod gwelliannau diweddar wedi eu gwneud, nid yw’r ardal wedi ei threfnu i fod yn estyniad naturiol o’r dosbarth.

Caiff yr adeilad a thir yr ysgol eu cynnal a’u cadw’n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r uwch dîm rheoli a'r staff yn cydweithio'n gydwybodol i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Maent yn trafod anghenion disgyblion ac yn cynllunio'n briodol ar y cyd. Ar y cyfan, maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda gan gefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Mae'r ysgol yn rhoi ffocws priodol ar godi safonau, ac mae arweinwyr yn dadansoddi data'n ofalus i geisio monitro a herio perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau a gynhelir rhwng aelodau staff, cofnodion eu cyfarfodydd nac adroddiadau monitro yn rhoi ffocws digon clir ar sicrhau bod cynlluniau strategol yr ysgol yn hysbys i bob aelod staff ac yn cael eu gweithredu'n gyson. O ganlyniad, nid yw unigolion bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn ymroddgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r prif feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r is-banel codi safonau, a sefydlwyd yn gymharol ddiweddar, yn adolygu data perfformiad yn rheolaidd ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol yn cael digon o effaith ar gyfeiriad na gwaith strategol yr ysgol ac nid ydynt yn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel cynllunio ar gyfer datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu mwyafrif o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Y pennaeth cynorthwyol sydd yn bennaf gyfrifol am fonitro gwaith yr ysgol. Mae'n cywain tystiolaeth fanwl drwy ddadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion ond nid yw rôl aelodau eraill y staff wedi ei datblygu'n llawn o fewn y broses. Nid yw'r broses hunanarfarnu yn rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau'r disgyblion, na'r rhieni.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth fanwl gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac mae ychydig o'r llywodraethwyr profiadol yn ymweld â'r dosbarthiadau ac yn trafod gyda staff. Mae'r ymweliadau hyn yn gymorth i wella eu gwybodaeth gyffredinol am ansawdd yr addysg a gynigir gan yr ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn fanwl ac yn cynnwys cofnod o amserlenni clir ar gyfer gweithredu, cyfrifoldebau, gweithdrefnau monitro a chostau. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt rhwng blaenoriaethau'r cynllun datblygu a deilliannau'r broses hunanarfarnu yn ddigon penodol. Mae'r meini prawf llwyddiant a nodir ynddo yn rhy gyffredinol ac yn dueddol o bwysleisio'n ormodol ar wella darpariaeth yn hytrach nag ar wella deilliannau'r disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae cyswllt effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac addoldai lleol, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gynnal gwasanaethau achlysurol yn y gymuned. Mae'r profiadau hyn yn dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygiad ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol cadarn gydag asiantaethau allanol ac arbenigol sy'n cyfrannu at wella safonau a hybu lles disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth a geir gan y gwasanaeth arbenigol ar gyfer disgyblion byddar.

Mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod yn yr ysgol, sy'n hwyluso cyswllt rheolaidd ac yn gymorth i ddisgyblion ymgyfarwyddo â'r adeilad a'r staff. Mae rhai yn elwa o'r trefniant i aros i ginio cyn mynychu sesiwn y prynhawn. Mae'r cyswllt pontio newydd rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gymorth i sicrhau trefniadau trosglwyddo esmwyth.

Mae gweithgareddau safoni a chymedroli mewnol a rhwng ysgol cyfnod allweddol 2 yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n briodol â thargedau a chynlluniau'r ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion sy'n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim. Fe gyflogir aelod o staff ychwanegol rhan-amser i roi cymorth i ddisgyblion sy'n cael anhawster gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn briodol.

Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon. Mae gan yr ysgol athrawon cymwys ac ymroddedig ac mae arbenigeddau staff yn cael eu defnyddio'n synhwyrol i addysgu pynciau fel cerdd ac addysg gorfforol.

Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad a safonau gwaith disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon ac mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i godi safonau drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad staff mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol wedi datblygu'n briodol.

Mae ystod amrywiol o adnoddau dysgu priodol yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oes defnydd cyson o'r ardal allanol er mwyn hybu profiadau dysgu ac ysgogi disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612118 - Ysgol Babanod Coed Mawr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 55 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.1 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 14 | 15 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 50.0 | 66.7 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 15 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 57.1 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 20.0 | 8.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 15 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.6 | 80.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 13.3 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 15 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 20.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod:
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Emyr Wyn Davies Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Len Brookes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.